

## **PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 26 Chwefror 2003  
**Amser:** 9.15am hyd 12.15pm  
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### **YR HYN A WNAED I ROI DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000 AR WAITH YNG NGHYMRU.**

#### **Diben:**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr hyd a wnaed hyd yma i roi darpariaethau allweddol y Ddeddf ar waith yng Nghymru.

#### **Crynodeb**

2. Mae'r papur amgaeëdig yn disgrifio'r hyd a wnaed hyd yma i roi'r Ddeddf ar waith ac yn nodi prif elfennau'r gwaith sydd ar y gweill. Byddai'n ddefnyddiol cael safbwyntiau'r Pwyllgor ar:
  - a. yr hyn a wnaed hyd yma;
  - b. materion penodol i Lywodraeth y Cynulliad eu hystyried wrth barhau â'r gwaith hwn.

Chwefror 2003 Yr Is-adran Cefn Gwlad

**Yr hyn a wnaed i roi Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar waith.**

**Rhagarweiniad**

1. Mae'r Ddeddf yn ddarn arwyddocaol iawn o ddeddfwriaeth bywyd gwyllt a chefn gwlad. Mae'n darparu ar gyfer mynediad newydd i gefn gwlad; gwelliannau i'r gyfraith ar hawliau tramwy; cryfhau'r trefniadau ar gyfer amddiffyn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Bywyd Gwyllt; a gwella'r modd y rheolir Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau a chyfrifoldebau newydd i asiantaethau amgylcheddol allweddol yng Nghymru - gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol ei hun (paratoi a chymeradwyo rheoliadau a chanllawiau ategol); Cyngor Cefn Gwlad Cymru (mapio'r tir lle ceir mynediad newydd a rheoli'r gyfundrefn gyfyngiadau); ac i'r Parciau Cenedlaethol a'r awdurdodau lleol (sefydlu fforymau mynediad lleol, etc).
2. Dyma grynodedd o'r hyn a wnaed hyd yma a'r camau y bwriedir eu cymryd yn y dyfodol i weithredu prif ddarpariaethau'r Ddeddf.

## **Rhan I : Mynediad i Gefn Gwlad**

3. Mae llawer o waith wedi'i wneud i ddod â'r hawl newydd i rym ar gyfer mynediad i gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig yng Nghymru. Disgwylir y gallai tua 300,000 hectar o dir yng Nghymru ddod yn 'dir mynediad' o ganlyniad. Er y bydd llawer o'r tir o fewn y Parciau Cenedlaethol, mae'n debyg y bydd cyfran helaeth ohono ar hyd a lled Cymru, gan roi cyfleoedd newydd i fynd i gerdded yn y wlad. Disgwylir y bydd yr hawl newydd hon yn dod i rym ledled Cymru yng ngwanwyn 2005.
4. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) ar hyn o bryd yn mapio cefn gwlad agored a thir comin cofrestredig yng Nghymru fesul ardal. Erbyn diwedd 2003 bydd wedi llunio mapiau drafft o'r ardaloedd mynediad newydd ar gyfer Cymru gyfan. Mae CCW yn ystyried yr holl safbwyntiau a dderbyniwyd ar y mapiau drafft, ac yn diwygio'r mapiau cyn eu cyhoeddi unwaith eto fel mapiau dros dro. Ar hyn o bryd mae gan rai sydd â budd yn y tir dri mis i apelio i'r Cynulliad os ydynt yn credu bod y map yn anghywir i ddisgrifio eu tir fel tir mynediad. Yr Arolygiaeth Gynllunio fydd yn ystyried yr apeliadau ar ran y Cynulliad. Bydd CCW wedyn yn cyhoeddi'r mapiau terfynol neu'r mapiau pendant ar gyfer tir mynediad yng Nghymru. Disgwylir y bydd wedi cyhoeddi'r holl fapiau pendant erbyn diwedd 2004, yn barod i gyflwyno mynediad agored yng ngwanwyn 2005.
5. I ategu'r gwaith hwn mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo chwe set o reoliadau yn ystod y 18 mis diwethaf i sicrhau bod y prif fframwaith rheoliadol ar waith. Ymgynghorwyd â Phwyllgor yr Amgylchedd ar bob un o'r rheoliadau hyn. Maent yn cynnwys rheoliadau ar gyfer mapio ac ar gyfer y broses apelio sy'n gysylltiedig â hynny, gweithdrefnau i reolwyr tir a thirfeddianwyr arfer eu hawliau i atal mynediad am resymau rheoli tir, a rheoliadau sy'n galluogi tirfeddianwyr i ddewis rhoi eu tir fel tir mynediad cyhoeddus.
6. Yn gysylltiedig â hyn hefyd mae gwaith i helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno mynediad agored o dan Ran I :
  - Sefydlu Grp Llywio Cyfleoedd Cefn Gwlad newydd. Y Gweinidog dros yr Amgylchedd

fydd y Cadeirydd a bydd y Grp hwn yn cynorthwyo i gynllunio a chydlynu'r gwaith yn strategol er mwyn sicrhau bod mynediad agored yn dod i rym yn llwyddiannus yng Nghymru - a bod yr amrediad o fanteision posibl yn cael eu cyflawni.

- Mae CCW ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio ar god cefn gwlad newydd gan ystyried yr hawl newydd ar gyfer mynediad cyhoeddus i gefn gwlad agored.
- Mae CCW yn datblygu canllawiau ar gyfer rheolwyr tir ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â 'thir mynediad'.
- Safonau gwasanaeth a hyfforddiant newydd i ategu gwasanaethau wardeniaid a cheidwaid.
- Mae Adfywio, sef cynllun grant ar y cyd rhwng CCW a'r Bwrdd Croeso, a gyflwynwyd o dan Gynllun Adfywio Gwledig Llywodraeth y Cynulliad, hefyd yn rhoi cymorth i brosiectau defnyddiol sy'n cysylltu twristiaeth â hamdden yn yr amgylchedd naturiol.

## **Rhan II - Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

1. Mae Rhan II o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i wella'r modd y rheolir y rhwydwaith enfawr o hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2003, ar ôl ymgynghori â Phwyllgor yr Amgylchedd, rhoddwyd canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar baratoi cynlluniau i wella hawliau tramwy. Drwy gyfrwng y cynlluniau hyn yn bennaf y bydd awdurdodau lleol yn nodi gwelliannau allweddol i'r rhwydwaith o hawliau tramwy er budd cerddwyr, beicwyr, pobl ar geffylau a phobl â phroblemau symudedd.
2. Mae gwaith ar y gweill i lunio rheoliadau drafft ar gyfer ddileu rhwystrau i hawliau tramwy. Mae'r Is-adran Cefn Gwlad yn bwriadu ymgynghori ar hyn yn y gwanwyn. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i baratoi rheoliadau drafft sy'n darparu fframwaith ar gyfer mynediad i gerbydau ar dir comin yng Nghymru, gyda'r bwriad o'u cyflwyno yn ddiweddarach eleni. Mae Rhan II o'r Ddeddf yn cynnwys ystod eang o ddarpariaethau ac rydym bellach yn ystyried y blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer gweithredu'r rheoliadau.

## **Rhan III - Gwarchod Natur ac Amddiffyn Bywyd Gwyllt**

3. Roedd y Ddeddf yn cyflwyno gwell mesurau i atal gweithgareddau a fyddai'n difetha'r hyn sydd o ddiddordeb arbennig mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a rheoli'r safleoedd pwysig hyn. Yn ogystal â rhoi pwerau newydd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi hawliau newydd i bobl apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol. Ar ôl cynnal ymgynghoriad yn ystod gaeaf 2001, daeth rheoliadau i rym ym mis Gorffennaf 2002 ar gyfer gweithdrefnau apelio i gyrff sydd â diddordeb a pherchnogion tir a thirfeddianwyr y mae penderfyniadau CCW yn effeithio arnynt.
4. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi paratoi canllawiau drafft i gynorthwyo Cyngor Cefn Gwlad Cymru i arfer ei bwerau a'i swyddogaethau rheoliadol gwell mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cod drafft ym mis Hydref 2002. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried yr ymatebion ac yn bwriadu cyhoeddi'r cod yn haf 2003.

## **Bioamrywiaeth**

5. Yn 2002, ymgynghorwyd unwaith eto â CCW, a charfanau eraill a oedd â diddordeb, ynghylch y rhestr o rywogaethau a chynefinoedd sydd o bwys yng Nghymru. Cyhoeddwyd y Rhestr derfynol ar 28 Tachwedd 2002. Mae'r Rhestr, yn unol â Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig, yn nodi 174 o rywogaethau a 40 math o gynefin sy'n bwysig i warchod amrywiaeth fiolegol Cymru. Er bod 12 o'r rhywogaethau hynny wedi'u hepgor o restr UKBAP, maent o bwys cadwriaethol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i adolygu'r Rhestr a chynhelir yr adolygiad nesaf yn 2005 ar yr un pryd ag adolygiad UKBAP.
6. Yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Adran 74, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio ag Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru ac yn rhoi cyllid ychwanegol iddynt. Y nod yw dysgu ecolegwyr a swyddogion cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol, yn ogystal â phobl allweddol eraill sy'n gweithio yn y maes, sut i adnabod y rhywogaethau ar y Rhestr. Darperir hyfforddiant ymarferol yn ogystal â nodiadau canllaw. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## **Rhan IV - Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.**

7. Mae Rhan IV o'r Ddeddf yn cyflwyno darpariaethau sy'n helpu i sicrhau bod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn cael eu rheoli a'u hamddiffyn yn well. Mae pump o'r rhain yng Nghymru - Y Gwyr, Dyffryn Gwy, Penrhyn Llyn, Bryniau Clwyd ac Arfordir Ynys Môn. Yn bennaf mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli ar gyfer pob AHNE. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ddyletswydd ar yr "awdurdodau perthnasol" i gofio pwysigrwydd gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE wrth wneud gwaith sy'n effeithio ar AHNE. Rhaid i gynlluniau rheoli'r AHNE fod yn barod erbyn 30 Ebrill 2004. I gynorthwyo'r broses cyhoeddodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ganllawiau ar lunio Cynlluniau Rheoli AHNE ac mae hefyd yn talu costau ymgynghori awdurdodau lleol perthnasol ar y mater hwn.

## **Rhan V - Darpariaethau amrywiol**

8. Mae un o'r darpariaethau allweddol yn Rhan V o'r Ddeddf yn ymwneud â sefydlu Fforymau Mynediad Lleol. Rôl y fforymau yw rhoi cyngor ar sut i wella mynediad cyhoeddus i dir yn eu hardaloedd lleol er mwyn galluogi pobl i hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal. Mae ganddynt felly rôl bwysig i ategu'r broses o weithredu darpariaethau mynediad agored y Ddeddf. Cymeradwyodd y Cynulliad y rheoliadau ar gyfer sefydlu'r Fforymau ddiwedd 2001. Hyd yma mae 26 o'r 29 o Fforymau Mynediad Lleol posibl wedi cael eu sefydlu yng Nghymru ac mae gwaith ar y gweill i sefydlu'r tri arall.

## **I gloi**

9. Fel y nodir uchod mae amrywiaeth o waith eisoes wedi'i wneud i roi darpariaethau'r

Ddeddf ar waith yng Nghymru - ac mae mwy ar y gweill. Penderfynwyd rhoi blaenoriaeth yn gyntaf i'r darpariaethau yn ymwneud â mynediad o dan Ran I a'r trefniadau ar gyfer Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o dan Ran III. Mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu'n llawn at y datblygiadau hyd yma a'r nod yw parhau â'r cyfraniad llwyddiannus hwn er mwyn cyflwyno darpariaethau allweddol eraill y Ddeddf.

Chwefror 2003 Yr Is-adran Cefn Gwlad